Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth, Anifeiliaid, a Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020** |
| **DYDDIAD** | **04 Tachwedd 2020** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Rh30C –** Hysbysiad mewn Perthynas ag Offerynnau Statudol a wnaed gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 nas gosodwyd gerbron y Senedd.

**Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth, Anifeiliaid, a Marchnata Hadau, Planhigion a Deunyddiau Lluosogi (Swyddogaethau Deddfwriaethol a Darpariaethau Amrywiol) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**

**Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r ddeddfwriaeth ganlynol:**

Deddfwriaeth yr UE

- Rheoliad (UE) Rhif 576/2013 ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol;

- Rheoliad (EU) Rhif 577/2013 ar y dogfennau adnabod enghreifftiol ar gyfer symud cŵn, cathod a ffureti yn anfasnachol, sefydlu rhestrau o diriogaethau a thrydydd gwledydd a gofynion fformat, cynllun ac iaith y datganiadau sy'n awgrymu cydymffurfiaeth ag amodau penodol;

- Rheoliad (UE) Rhif 2019/294 sy'n gosod y rhestr o diriogaethau a thrydydd gwledydd sydd wedi'u hawdurdodi i fewnforio cŵn, cathod a ffureti i'r Undeb a'r dystysgrif iechyd anifeiliaid enghreifftiol ar gyfer mewnforion o'r fath;

- Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 535/2008, 13 Mehefin 2008, sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 708/2007 ynghylch defnyddio rhywogaethau estron a rhywogaethau sy'n absennol yn lleol mewn dyframaeth.

Deddfwriaeth ddomestig

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019

Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Rhywogaethau Estron mewn Dyframaeth (Diwygio) (Cymru a Lloegr) (Ymadael â’r UE) 2019

Rheoliadau’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a Dyframaethu (Diwygio etc.) (Ymadael â’r UE) 2019
Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol a Iechyd Planhigion (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â’r UE) 2019

Rheoliadau Anifeiliaid (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â’r UE) 2019

Rheoliadau Dileu a Rheoli Afiechydon Milheintiol (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae gan swyddogaethau a drosglwyddwyd fel eu bod yn arferadwy gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru y potensial i gynnwys y gofyniad i ymgynghori â Llywodraeth y DU o dan Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 pe bai Bil Senedd yn y dyfodol yn ceisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hynny.

Mae gan y swyddogaethau cydamserol a geir yn y Rheoliadau y potensial i gynnwys y gofynion cydsyniad yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac, fel y cyfryw, maent yn cyfyngu o bosibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cynnal trafodaethau gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Gorchymyn adran 109 o dan y Ddeddf i ddiwygio Atodlen 7B i negyddu'r cyfyngiad posibl ar gymhwysedd y Senedd yn y dyfodol.

**Diben y gwelliannau**

Mae'r Rheoliadau'n darparu bod swyddogaethau deddfwriaethol a roddir ar hyn o bryd gan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd i'r Comisiwn Ewropeaidd a Chyngor yr Undeb Ewropeaidd yn arferadwy yn lle hynny gan awdurdodau priodol ym Mhrydain Fawr, fel y gellir eu harfer ar lefel genedlaethol ar ôl diwedd y cyfnod pontio. Maent yn diwygio offerynnau statudol ymadael yr UE yn flaenorol er mwyn adlewyrchu'r newid mewn sefyllfa ddeddfwriaethol yn dilyn y Cytundeb Ymadael a Phrotocol Iwerddon / Gogledd Iwerddon. Maent hefyd yn diwygio deddfwriaeth yr UE a wnaed ers i OSau Ymadael â’r UE gael eu gwneud a rhaid eu gwneud yn weithredol.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi tarddiad, diben ac effaith y Rheoliadau, ar gael yma: https://www.legislation.gov.uk/ukdsi/2020/9780348214475/contents

**Pam y rhoddwyd caniatâd**
Rhoddwyd caniatâd i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau mewn perthynas â Chymru ac ar ei rhan am resymau’n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod. Mae'r gwelliannau wedi'u hystyried yn llawn ac nid oes gwahaniaeth mewn polisi. Nod y gwelliannau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn weithredol ar ôl ymadael â’r UE.